## Gwybodaeth i Rieni

Mae symud i'r ysgol uwchradd yn gyfnod heriol i bob plentyn. Mae modd iddo fod yn gyfnod anos fyth i blant sydd ag anawsterau lleferydd/iaith/cyfathrebu neu sydd ar y sbectrwm awtistig.
Dyma rai argymhellion o'r hyn y mae modd i chi ei wneud gartref gyda'ch plentyn er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio'n mynd rhagddo'n llwyddiannus.

## Gartref - sut i helpu

- Copi o'r amserlen a rhestr wirio ar y wal. Efallai bod modd i chi roi nodyn atgoffa wrth y drws ffrynt.
- Defnyddio cod lliwiau i adnabod llyfrau.
- Llunio rhestr wirio er mwyn paratoi'r bag ysgol.
- Ymarfer clymu ffedog neu lasys.
- Ymarfer gwisgo yn gyflym.
- Bocs arbennig er mwyn cadw llyfrau ysgol a ffolder i gadw unrhyw ddarnau o bapur ar wahân.
- Creu man penodol i weithio.
- Geiriadur.
- Cyflenwad o bapur, pinnau, a chyfarpar arall megis cyfrifiannell ac adnoddau mathemateg.
- Creu trefn feunyddiol gyda'r nos, sy'n cynnwys gwneud gwaith cartref ac edrych ar yr amserlen/yn y dyddiadur i weld beth sydd ei angen ar gyfer y diwrnod nesaf.

- Ymarfer dweud faint o'r gloch yw hi.
- Ymarfer trin arian.
- Ymarfer y daith i'r ysgol - trefnu bod gan eich plentyn ffrind ar y daith.
- Siarad am yr hyn mae eich plentyn yn edrych ymlaen at ei wneud a'r hyn rydych chi'n gwybod y bydd e/hi'n ei fwynhau.
- Ymarfer beth i'w wneud o dan rai amgylchiadau.

Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant
Rhondda Cynon Taf
Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ
Ffôn / Tel: 01443 744333

RHONDDA CYNON TAF




# Symud Ymlaen

# Gwybodaeth i Rieni